

SAMUEL, HOWEL WALTER (1881 - 1953), barnwr a gwleidydd

Enw: Howel Walter Samuel
Dyddiad geni: 1881
Dyddiad marw: 1953
Priod: Annie Gwladys Gregg (née Samuel)
Priod: Harriott Sawyer Samuel (née Polkinghorne)
Rhiant: Thomas Samuel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr a gwleidydd
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awduron: Evan David Jones, Mary Auronwy James

Ganwyd 1881 yn Fforest-fach, Abertawe, yn fab i Thomas Samuel, gweithiwr tun yng ngwaith Cwmbwrla. Gadawodd ysgol y Cocyd yn 11 oed i weithio yng nglofa Charles, Fforest-fach. Cafodd ddamwain ac anafu un goes yn 1906 a bu'n gloff ac effeithiwyd ar ei iechyd weddill ei oes. Y ddamwain hon a newidiodd gwrs ei fywyd, gan iddo fagu blas at ddarllen yn ystod y misoedd y bu'n orweiddiog. Wedi aildechrau gweithio aeth i bwl Garngoch 3 lle yr oedd [David Rhys Grenfell](#) (aelod seneddol Gwyr yn ddiweddarach) yn gydymaith iddo. Cymerodd ddiddordeb mewn gweithgareddau sosialaidd a bu'n un o ysgrifenyddion Cymdeithas Lafur Abertawe. Mewn ysgol wyliau sosialaidd yn Caister-on-sea cyfarfu â Harriott Sawyer Polkinghorne, ysgolfeistres yn Llundain. Priododd hwy yn 1911 a bu hi'n symbylydd cryf iddo gyda'i astudiaethau yn y gyfraith a gwelodd ffrwyth ei hymdrechion pan alwyd ef i'r Bar yn y Deml Ganol yn 1915. Cafodd weld ei godi'n K.C. yn 1931, yn gofiadur Merthyr Tudful (1930-33) ac yn farnwr ar gylchdaith canolbarth Cymru i ddilyn [Ivor Bowen](#) yn 1933. Oherwydd y dyrchafiad olaf hwn bu rhaid iddynt symud i fyw i Landrindod. Yn y cyfamser daeth yn aelod seneddol Llafur cyntaf dros etholaeth gorllewin Abertawe gan drechu Syr Alfred Mond o 115 pleidlais yn Rhagfyr 1923, ond colodd y sedd i Walter Runciman yn Hydref 1924, ei chael eto ym mis Mai 1929, a'i cholli eto o fwy na chwe mil i [Lewis Jones](#) yn Hydref 1931. Tyfodd i fod yn un o fargyfreithwyr blaenaf ei gyfnod yng Nghymru. Bu'n amlwg gydag achosion iawndâl i weithwyr a bu'n gadeirydd tribiwnlys gwrthwynebwyr cydwybodol yn ne Cymru am rai blynyddoedd. Yr oedd yn alluog a dewr iawn, a chanddo'r ddawn i wneud cyfeillion ym mhob cylch.

Bu ei wraig farw yn Abertawe, 19 Awst 1939, a phriododd (2) yn Llandrindod 24 Ebrill 1941 ag Annie Gwladys, gweddw Syr Henry Gregg a merch David Morlais Samuel, Abertawe. Yr oedd hi'n aelod o Orsedd y Beirdd wrth yr enw 'Morlaisa'. Bu ef farw 5 Ebrill 1953.

Awduron

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who was who?

The Times, 7 Ebrill 1953

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Howel Walter Samuel](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q15998437](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

